

Cyfarfod Cyngor Partneriaeth Cymru
10.00am - 12.00pm, dydd Iau 20 Medi 2018
Ystafelloedd Cynadledda C a D, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

Cofnodion

Yn bresennol

Aelodau

Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru – rhan o'r cyfarfod
Mark Drakeford, AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid – rhan o'r cyfarfod
Julie James, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip – rhan o'r cyfarfod
Y Cyngwr Debbie Wilcox – Cyngor Dinas Casnewydd
Y Cyngwr Andrew Morgan – Cyngor Rhondda Cynon Taf
Y Cyngwr Huw Thomas – Cyngor Dinas Caerdydd
Y Cyngwr Ieuan Williams – Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cyngwr Mair Stephens – Cyngor Sir Gaerfyrddin
Y Gwir Anrhwyl Alun Michael – Cynrychiolydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau
Y Cyngwr Mike Cuddy – Cynrychiolydd Cyngorau Cymuned
Maria Battle – Cynrychiolydd Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru a Byrddau Iechyd Lleol

Arsylwyr

Steve Thomas – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Ruth Marks – Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Lyn Cadwallader – Un Llais Cymru
Adrian Compton – Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Reg Kilpatrick
Caren Fullerton

Ysgrifenyddiaeth

Claire Germain
John Davies

Ymddiheuriadau

Y Cyngworydd Ellen ap Iwan – Ceredigion
Y Cyngwr John W Thomas – Cyngor Bro Morgannwg
Y Cyngwr Aaron Shotton – Cyngor Sir y Fflint
Y Cyngwr Rob Stewart – Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Martin Mansfield – Cyngres yr Undebau Llafur (TUC) Cymru
Owain Wyn - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Pwyntiau Gweithredu

- Alun Michael i ddarparu papur ar Ddiogelwch Cymunedol i gyfarfod nesaf y Cyngor Partneriaeth ym mis Tachwedd (paragraff 1.2)
- Reg Kilpatrick i gwrdd ag Alun Michael i drafod goblygiadau'r Concordat Seibergadernid a Seiberddiogelwch yn fanylach (paragraff 4.9)
- Alun Michael a Lyn Cadwallader i ddarparu cyfraniadau byr at Adroddiad Blynyddol Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol (paragraff 5.3)

1. Croeso a Sylwadau Agoriadol

- 1.1. Agorwyd y cyfarfod gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus drwy groesawu'r aelodau. Croesawodd y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, a oedd yn bresennol i drafod y papur Trefniadau Pontio Ewropeaidd. Yna croesawodd Adrian Compton i'w gyfarfod Cyngor Partneriaeth cyntaf yn ei rôl newydd fel Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 1.2. Yna, trodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus at fusnes y dydd ac egluro bod pedair prif eitem ar yr agenda a; bod hefyd ddau bapur i'w nodi. Dywedodd y byddai Alun Michael yn cyflwyno papur ar Ddiogelwch Cymunedol yng nghyfarfod mis Tachwedd.
- 1.3. Yna rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ddiweddariad cryno ar Ddiwygio Llywodraeth Leol. Eglurodd fod Gweithgor wedi'i sefydlu, a fyddai'n cael ei gadeirio gan Derek Vaughan ASE, i ddatblygu agenda a rennir ar gyfer llywodraeth leol ac y byddai'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ddydd Gwener nesaf, 28 Medi.
- 1.4. Cytunwyd ar y cofnodion ac ni chafwyd unrhyw sylwadau.
- 1.5. Cyn cyflwyno'r papur cyntaf, talodd y Cyngh Debbie Wilcox deyrnged i'r Prif Weinidog yn ei gyfarfod Cyngor Partneriaeth olaf, cyn iddo ymddiswyddo fel Prif Weinidog Cymru. Diolchodd y Cyngh Wilcox i'r Prif Weinidog am ei gyfraniad anferth; a'i rôl ganolog ers datganoli yn 2009 wrth symud Cymru yn ei blaen; a dymunodd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol. Cefnogwyd y sylwadau hyn gan Maria Battle, Ruth Marks ac Alun Michael.
- 1.6. Diolchodd y Prif Weinidog i'r Cyngh Wilcox am ei geiriau caredig, gan ddweud y bu'n bleser gweithio gyda hi a chydweithwyr eraill yn llywodraeth leol dros y naw mlynedd diwethaf.

2. Trefniadau Pontio Ewropeaidd

- 2.1 Cafwyd diweddariad ar ddatblygiadau diweddaraf Brexit gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, gan drafod cynllun Chequers Llywodraeth y DU, yr her sydd o flaen Prif Weinidog y DU wrth geisio cael cytundeb drwy Dŷ'r Cyffredin, y risgiau i Gymru yn sgil "dim cytundeb" a'r ffaith y byddai'n anodd iawn lliniaru canlyniad o'r fath.
- 2.2 Trafododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid hefyd Hysbysiadau Technegol "dim cytundeb" Llywodraeth y DU a'r baich deddfwriaethol posibl ar y Cynulliad, gan roi diweddariad i'r cyfarfod ar y gyfran nesaf o gyllid gan Gronfa Bontio'r UE.
- 2.3 Yn dilyn trosolwg Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, rhoddodd Prif Weinidog Cymru ddiweddariad pellach ar ei gyfarfod diwethaf â Michel Barnier, Prif negodwr yr Undeb Ewropeaidd ar Brexit, gan roi sylwadau ar y safbwynt diwyro y mae'r UE wedi'i gynnal drwy gydol y trafodaethau o'i gymharu â Llywodraeth y DU. Mynegodd hefyd ei bryderon am gynigion Chequers ar gysondeb rheoleiddiol â'r UE ar nwyddau ond nid ar wasanaethau.
- 2.4 Tynnodd y Prif Weinidog sylw hefyd at y ffaith fod mater ffin Iwerddon yn faen tramgwydd enfawr yn y trafodaethau. Aeth yn ei flaen i egluro na allai unrhyw beth gael ei ddatrys nes i'r mater hanfodol hwn gael ei ddatrys yn gyntaf. Yn ei hanfod, gêm ddisgwyl fyddai hi am yr ychydig wythnosau nesaf a chawn weld beth fydd yn digwydd wedi hynny.
- 2.5 Eglurodd y Cyngh Wilcox fod Ysgrifennydd Gwladol Cymru, mewn cyfarfod UE diweddar yr aeth iddo, wedi rhannu ei optimistiaeth o gael cytundeb ac am y cyfleoedd a gynigir gan Brexit. Amlygodd y Cyngh Wilcox y gwrthgyferbyniad rhwng y ddwy drafodaeth.
- 2.6 Soniodd Alun Michael am y materion diogelwch a phlisma sy'n gysylltiedig â Brexit, gan gynnwys colli'r Warant Arestio Ewropeaidd a'r cydweithredu trawsffiniol presennol. Roedd yn pryderu'n arbennig na fyddai cynrychiolwyr yn yr ystafell yn ystod trafodaethau a oedd â goblygiadau i ddinasyddion yng Nghymru. Roedd Alun Michael o'r farn mai masnachu oedd un o'r heriau mwyaf, ond fod yna her anferth hefyd o ran diogelwch dinasyddion, a hynny yn y DU ac yn yr UE.
- 2.7 Cyfeiriodd Maria Battle at yr effaith y byddai Brexit yn ei chael ar y GIG yng Nghymru, a'r papur roedd wedi'i ddosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod, yn ymwneud â'r materion allweddol ar gyfer sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol wrth i'r DU baratoi i adael yr UE. Roedd staff, cyflenwad cyffuriau a chyfarpar yn bryderon penodol. Nododd y Prif Weinidog, er bod gallu manteisio'n barhaus ar weithwyr medrus yn angenrheidiol, fod llawer o fusnesau yng Nghymru yn dibynnu ar weithwyr llai medrus o'r UE ac y byddai llai o allu i fanteisio ar weithwyr posibl yn her sylweddol i'r busnesau hynny.
- 2.8 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Prif Weinidog ac aelodau'r Cyngor am eu sylwadau ar y mater penodol hwn ac eglurodd mai amser a ddengys ac y byddai angen i ni aros i weld beth a ddaw yn ystod yr wythnosau nesaf gan fod 29 Mawrth 2019 yn prysur agosáu.

Cyn i'r Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet adael y cyfarfod, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ddiolch iddynt am ddod i ran gyntaf y cyfarfod.

3. Argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol ar Gyngorau Cymuned a Thref

- 3.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet bapur a oedd yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau ac argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r sector Cyngorau Cymuned a Thref. Byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf.
- 3.2 Roedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi cyfarfod â'r Panel ar sawl achlysur, a chafwyd trafodaethau adeiladol a chadarnhaol ynghylch y posibiladau ar gyfer cyngorau cymuned a thref. Roedd yn ymwybodol hefyd fod y Panel wedi cynnal sesiynau gwybodaeth gyda'r sector a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys rhai o aelodau'r Cyngor Partneriaeth, er mwyn rhannu eu canfyddiadau a'u hargymhellion dros yr haf.
- 3.3 Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn awyddus i barhaus â'r trafodaethau. Byddai trafodaeth Cabinet yn cael ei chynnal ym mis Tachwedd ac yna byddai'n cyflwyno ffordd ymlaen y cytunwyd arni i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyn hynny, roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn awyddus i glywed sylwadau gan y Cyngor Partneriaeth ar y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg.
- 3.4 Dywedodd y Cyngh Cuddy na allai ddadlau ynghylch y rhan fwyaf o'r 46 o argymhellion a chroesawodd y sylw sy'n cael ei roi i gyngorau cymuned a thref. Roedd yn gweld yr adroddiad fel sail resymol ar gyfer trafodaethau yn y dyfodol, ac yn credu mai democratiaeth leol, cymunedau lleol dymunol ac economeg bywyd bob dydd oedd yr elfennau pwysig y dylid canolbwyntio arnynt.
- 3.5 Nododd bwysigrwydd y gefnogaeth i strwythurau gweinyddol cryfach, hyfforddiant a meithrin capasiti ac adnoddau. Teimlai y gallai'r Panel fod wedi dweud mwy am adnoddau a'r dulliau o ariannu cyngorau tref a chymuned.
- 3.6 Roedd Alun Michael yn siomedig nad oedd yr adolygiad yn argymhell y dylai cyngorau tref a chymuned gael mwy o uchelgais ynghylch yr hyn maent yn ei gyflawni ar gyfer eu hardaloedd lleol. Teimlai y gellid bod wedi rhoi mwy o bwyslais ar eu rôl o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 3.7 Dywedodd Ruth Marks wrth y cyfarfod fod Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) wedi gweithio gydag Un Llais Cymru ac wedi cyflwyno papur byr yn nodi rhai syniadau ar gyfer gweithio ar y cyd ar gynllunio cymunedol, gan adeiladu ar drafodaethau mewn cyfarfod blaenorol.
- 3.8 Roedd y Cyngh Huw Thomas o'r farn ei bod yn hen bryd cael adolygiad o'r sector cyngorau tref a chymuned. Er ei fod yn croesawu'r adolygiad, roedd ganddo rai pryderon. Roedd yn cytuno y dylai penderfyniadau gael eu gwneud mor agos at y bobl â phosibl, ond nododd, o gofio bod 80 y cant o'r holl seddi yn seddi diymgeisydd; nad oedd hyn

gyfystyr ag atebolrwydd democrataidd. Nododd y Cyngh Thomas na fyddai'n cefnogi'r argymhelliad y dylai cynghorau cymuned a thref gael eu hariannu am fabwysiadu unrhyw wasanaethau / swyddogaethau newydd oherwydd y praesept sydd ar gael iddynt i godi arian yn uniongyrchol, ac mai cyfrifoldeb y cynghorau cymuned a thref oedd penderfynu sut i wneud y defnydd gorau o'r cyllid hwnnw. Croesawodd y Cyngh Thomas yr hyfforddiant gorfodol yn ogystal â'r safonau gofynnol ar gyfer clerod a'r cynnig i roi terfyn ar yr arfer o 'wisgo dwy het', lle mae cynghorwyr yn cynrychioli'r gymuned ar lefel y prif gyngor a'r cyngor cymuned a thref.

- 3.9 Roedd y Cyngh Wilcox yn cytuno mewn egwyddor â'r eglurder a'r diben mwy amlwg a ddarperir gan yr adroddiad ond roedd yn pryderu y gallai arwain at ail-greu'r ddwy haen o lywodraeth leol yng Nghymru.
- 3.10 Pwysleisiodd y Cyngh Williams, er bod yna ddarlun cymysg yng Nghymru, ei bod yn hanfodol bod cyfathrebu cryf rhwng cynghorau cymuned a chynghorau sir a'i bod yn bwysig bod cynghorwyr sir yn parhau i eistedd ar gynghorau cymuned. Ar y cyfan, teimlai fod hwn yn ddarn o waith da ac y byddai CLILC yn rhoi ei farn lawn ar yr adroddiad maes o law.
- 3.11 Eglurodd y Cyngh Cuddy fod yna bosiblwydd, yn y dyfodol, y byddai'r model cynllunio cymunedol yn ymestyn gwasanaethau lleol a'i fod yn gobeithio y byddai hyn er gwell. Roedd y Cyngh Cuddy hefyd yn cytuno â'r Cyngh Williams o ran datganoli democratiaeth leol.
- 3.12 Croesawodd y Cyngh Morgan yr adolygiad, gan ystyried ei bod yn hen bryd ei gynnal. Dywedodd y Cyngh Morgan fod y cynghorau cymuned yn ei ardal ef yn amrywio'n fawr. Roedd rhai yn dda iawn ond roedd eraill nad oeddent cystal. Eglurodd fod rhai cynghorwyr cymuned yn y sector cymunedol yn ei ardal ef, yn gwrthod gweithio gydag ef a bod hyn yn rhwystredig dros ben. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith bod llawer o'r aelodau heb eu hethol a bod y gwariant ar glerod yn ei ardal yn rhy uchel.
- 3.13 Roedd y Cyngh Morgan am weld mwy o weithio mewn partneriaeth, yn arbennig o ran rhannu swyddogaethau AD.
- 3.14 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r Cyngh Morgan am ei sylwadau gonest, gan ddweud ei fod yn deall bod rhai aelodau yn ymddwyn yn wael ond nad oedd hwn yn fater hawdd mynd i'r afael ag ef. Roedd llawer y gellid ei wneud, fel yr awgrymodd y Cyngh Morgan, i wneud pethau'n fwy effeithlon ac effeithiol wrth weinyddu'r cynghorau cymuned a thref. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd perthynas effeithiol rhwng y prif gyngor a'i gynghorau cymuned a thref.
- 3.15 Croesawodd y Cyngh Mair Stephens yr adroddiad a dywedodd fod cynghorau cymuned wedi meithrin llawer o arweinwyr cynghorau, a bod hynny'n rhywbeth i'w ganmol. Bu'r cynghorau cymuned yn llwyfan i lawer o unigolion ddechrau eu gyrfaoedd gwleidyddol ac ni ddylid byth anghofio hynny.

- 3.16 Roedd Lyn Cadwallader yn eithaf bodlon ar yr argymhellion a'r canfyddiadau. Roedd yn awyddus, fodd bynnag, i feithrin cydberthnasau cryfach er mwyn mynd i'r afael â'r mannau gwan. Roedd gwasanaethau anstatudol yn faes penodol a oedd yn peri pryder, a galwodd am gyfathrebu cryfach rhwng awdurdodau lleol, Un Llais Cymru, cynghorau cymuned, Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r pryder hwn.
- 3.17 Dywedodd y Cyngh Wilcox y byddai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gweithio gydag Un Llais Cymru i ddatblygu arfer da a hefyd i annog cydberthnasau a siarteri lleol.
- 3.18 Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r drafodaeth yn parhau dros yr ychydig wythnosau nesaf er mwyn llywio ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad.

4. Trawsnewid Digidol a Seiberddiogelwch i Lywodraeth Leol Cymru a; lansiad y Concordat Seibergadernid a Seiberddiogelwch

- 4.1 Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip, i'r cyfarfod a'i gwahodd i gyflwyno'r papur. Rhoddodd Arweinydd y Tŷ drosolwg o'r gwaith a'r trafodaethau parhaus rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol i sefydlu swyddogaeth Prif Swyddog Digidol ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru.
- 4.2 Tynnodd Arweinydd y Tŷ sylw at yr amrywiaeth o ddatblygiadau a oedd yn cael eu harwain gan lywodraeth leol a dywedodd ei bod yn edrych ymlaen at weithio gyda llywodraeth leol i gefnogi'r datblygiadau hyn. Ynghyd â'r gwaith i sefydlu swyddogaeth Prif Swyddog Digidol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, roedd gwaith hefyd ar y gweill ar draws y sector cyhoeddus ehangach a'r byd academiaidd i ystyried seiberddiogelwch a seibergadernid yn fanylach.
- 4.3 Cam gweithredu allweddol o'r cyfarfodydd hynny oedd y gallai sefydliadau ar draws y sectorau gytuno i bennu safonau gofynnol ar gyfer seiberddiogelwch yn unol ag argymhellion y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol. Byddai hyn yn sicrhau bod yr holl sefydliadau sector cyhoeddus yn rhannu ymwybyddiaeth gyffredin o faterion seibergadernid a seiberddiogelwch ac yn cyflawni safon gyffredin o ddiogelwch.
- 4.4 Yn dilyn y trafodaethau hynny, byddent yn arwyddo Concordat Seibergadernid a Seiberddiogelwch rhwng Gweinidogion Cymru a CLILC heddiw.
- 4.5 Eglurodd Caren Fullerton, Prif Swyddog Digidol Llywodraeth Cymru, fod canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol diweddar wedi nodi bod 82 y cant o'r cyhoedd yng Nghymru yn fodlon ar y gwasanaethau digidol. Serch hyn, roedd yna gyfle i wneud mwy o lawer a byddai swyddogaeth Prif Swyddog Digidol ar gyfer awdurdodau lleol yn helpu i ymgysylltu ar y materion hyn a sicrhau bod yna gydweithredu.

- 4.6 Amlinellodd Reg Kilpatrick bwysigrwydd seiberddiogelwch, a chyflwynodd y Concordat Seibergadernid a Seiberddiogelwch. Eglurodd Reg y byddai'r Concordat yn pennu safon gyffredin ac yn dangos arweinyddiaeth wrth atgyfnerthu seiberddiogelwch. Byddai arwyddo'r Concordat hefyd yn dangos ymrwymiad awdurdodau lleol i seibergadernid a seiberddiogelwch ac yn sefydlu sylfaen gyffredin a chyfarwydd o seiberddiogelwch ledled Cymru.
- 4.7 Croesawyd y Concordat gan y Cyngh Huw Thomas, a wnaeth gydnabod pwysigrwydd seiberddiogelwch. Dywedodd ei fod yn gyfle i Gymru dynnu sylw at ei diwydiant seiberddiogelwch ac arwain y ffordd i ranbarthau eraill. Croesawodd ddatblygiad swyddogaeth Prif Swyddog Digidol, a phwysleisiodd pa mor bwysig yw cydweithredu.
- 4.8 Croesawodd y Cyngh Ieuan Williams y cynigion ynglŷn â'r Prif Swyddog Digidol, ond pwysleisiodd ei bod yn bwysig i'r swyddogaeth hon gael ei datblygu unwaith, a'i dosbarthu fel adnodd a rennir ar draws Awdurdodau Lleol er mwyn osgoi dyblygu.
- 4.9 Nododd Alun Michael nad oedd y Concordat yn sôn am iechyd a phlisma, gan ddweud y dylai codi ymwybyddiaeth a chryfhau seiberddiogelwch fod yn ymdrech ar y cyd. Eglurodd Reg Kilpatrick mai man cychwyn yn unig oedd y Concordat rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, a chytunodd i gwrdd ag Alun Michael i drafod ymhellach.
- 4.10 Dywedodd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip fod Cymru yn awyddus i fod ar flaen y gad o ran technoleg ddigidol ond gwnaeth gydnabod bod yna faterion sylweddol, megis cysylltedd a chynhwysiant digidol, a oedd yn ei gwneud yn anodd.

5. Cadarnhau Adroddiad Blynyddol Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol 2017-2018

- 5.1 Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Adroddiad Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol wedi'i gytuno ar lefel swyddogol ac mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- 5.2 Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno heddiw a gwahoddwyd yr aelodau i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i ysgrifenyddiaeth y Cyngor Partneriaeth erbyn 4 Hydref. Ar ôl i fersiwn derfynol yr Adroddiad Blynyddol gael ei llunio, byddai'n cael ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yna'n cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.
- 5.3 Eglurodd Alun Michael a Lyn Cadwallader y byddent yn hoffi gwneud cyfraniadau pellach i'r Adroddiad Blynyddol. Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r cyfraniadau fod yn gryno a chyrraedd ysgrifenyddiaeth y Cyngor Partneriaeth erbyn y terfyn amser priodol.

6. Unrhyw Fater Arall

- 6.1 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r holl aelodau am eu cyfraniadau, a gofynnodd a oedd gan unrhyw un unrhyw fater arall i'w godi.
- 6.2 Ni chodwyd unrhyw fater arall.
- 6.3 Cyn symud ymlaen at arwyddo'r Concordat Seibergadernid, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Cyngor y byddai Steve Thomas, Prif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn ymddeol yn fuan.
- 6.4 Estynnodd Ysgrifennydd y Cabinet ei ddiolch i Steve am ei ddyfalbarhad a'i ymroddiad, nid yn unig i'r Cyngor Partneriaeth ond ym mhob agwedd ar ei rôl. Aeth Ysgrifennydd y Cabinet yn ei flaen i ddweud bod Steve wedi gwneud cyfraniad enfawr i fyd llywodraeth leol yng Nghymru ac y bu'n bleser cael gweithio gydag ef, a hynny yn ystod cyfnod nad oedd bob amser wedi bod yn hawdd. Yn olaf, dymunodd Ysgrifennydd y Cabinet ymddeoliad hir a hapus i Steve. Roedd Steve yn ddiolchgar iawn am eiriau caredig Ysgrifennydd y Cabinet, a diolchodd am y deyrnged.
- 6.5 Yn olaf, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet wybod i'r aelodau y bydd cyfarfod nesaf Cyngor Partneriaeth Cymru yn cael ei gynnal ddydd lau, 22 Tachwedd 2018.